Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

# Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru

## Athrofa Padarn Sant

**Adroddiad Adolygu**

Mawrth 2024

## Cynnwys

**Y canfyddiadau allweddol .................... 1**
Beirniadaethau QAA am Athrofa Padarn Sant .................... 1
Y meysydd sydd angen eu datblygu .................... 1
**Yr adolygiad hwn .................... 1**
**Ynghylch Athrofa Padarn Sant .................... 2**
**Y maes beirniadaeth: Dibynadwyedd y safonau academaidd a'u gallu i gael eu cymharu .................... 3**
Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon (FHEQ) .................... 3
Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC) .................... 3
Yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU .................... 3
Y Disgwyliadau o ran Safonau sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU .................... 5
Y feirniadaeth .................... 5
**Y maes beirniadaeth: Ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr .................... 6**
Yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU .................... 6
Y Disgwyliadau o ran Ansawdd sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU .................... 12
Y feirniadaeth .................... 12
**Sylwadau am gydymffurfiaeth â'r Safonau Iaith Gymraeg .................... 13**

# Y canfyddiadau allweddol

## Beirniadaethau QAA am Athrofa Padarn Sant

Rhoddodd tîm adolygu QAA y beirniadaethau canlynol am y ddarpariaeth addysg uwch yn Athrofa Padarn Sant.

- **Gellir teimlo hyder bod y safonau academaidd yn ddibynadwy, yn bodloni gofynion y DU, ac yn cymharu'n rhesymol â'r safonau a osodir ac a gyflawnir gan ddarparwyr eraill yn y DU.**
- **Gellir teimlo hyder bod ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol.**

## Y meysydd sydd angen eu datblygu

Canfu'r tîm adolygu'r **meysydd canlynol sydd angen eu datblygu** yn Athrofa Padarn Sant sydd â'r potensial i wella ansawdd a/neu i sicrhau ymhellach bod y safonau academaidd yn ddibynadwy a/neu'n gymaradwy. Mae'r tîm adolygu o'r farn y byddai'n fuddiol i Athrofa Padarn Sant:

- weithio gyda'i chyrff dyfarnu i ddatblygu amrywiaeth ehangach o ddulliau asesu a fydd yn cefnogi ei myfyrwyr i gyflawni amrywiaeth ehangach o ddeilliannau academaidd a phroffesiynol (paragraff 6).
- sicrhau y rhoddir adborth ar asesiadau i'r myfyrwyr mewn da bryd ac y cefnogir pob myfyriwr yn eu datblygiad academaidd a phroffesiynol (paragraff 14).

# Yr adolygiad hwn

Cynhaliwyd yr ymweliad adolygu rhwng 12 a 13 Mawrth 2023 a chafodd ei weithredu gan dîm o dri adolygwr, sef:

- Elizabeth Shackels
- Mark Cooper
- Dr Bradley Woolridge (adolygwr sy'n fyfyriwr).

Nod cyffredinol Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru yw:

- rhoi barn arbenigol i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru am barodrwydd y darparwr i fynd i mewn i'r sector addysg uwch, neu i barhau i weithredu ynddo.

Lluniwyd y broses Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru i:

- sicrhau bod buddiannau'r myfyrwyr yn cael eu diogelu
- roi cyngor arbenigol er mwyn sicrhau bod enw da system addysg uwch y DU yn cael ei ddiogelu, gan gynnwys diogelu safonau graddau
- ganfod meysydd sydd angen eu datblygu a fydd yn helpu'r darparwr i symud ymlaen drwy gyfnod datblygiadol a chael ei ystyried yn ddarparwr 'sefydledig'.

Mae pob adolygiad yn ystyried trefniadau'r darparwr yn erbyn agweddau perthnasol o'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol, ac mae'n ystyried y canlynol yn arbennig:

- dibynadwyedd y safonau graddau a'u gallu rhesymol i gael eu cymharu â'r safonau a osodir ac a gyflawnir gan ddarparwyr eraill
- ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr, gan gynnwys deilliannau'r myfyrwyr lle mae gan y darparwr hanes o ran darpariaeth addysg uwch.

## Ynghylch Athrofa Padarn Sant

Mae Athrofa Padarn Sant (yr Athrofa) yn darparu addysg hygyrch mewn diwinyddiaeth i bobl leyg, pobl ordeiniedig a gweinidogion yn yr Eglwys yng Nghymru. Mae'n darparu cymorth a hyfforddiant parhaus i weinidogion, y rheiny sy'n paratoi ar gyfer y weinidogaeth ac i weinidogion sydd newydd eu trwyddedu. Mae'n gymuned sy'n canolbwyntio ar ffurfiant a hyfforddiant ar gyfer y weinidogaeth, ac mae'n gweithio mewn partneriaeth â chwe esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru, eu hesgobion a'u cymunedau eglwysig lleol. Mae'n rhan o Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru, mae'n ymddiriedolaeth elusennol, a'i nod yw 'hyrwyddo cenhadaeth a gweinidogaeth yr Eglwys yng Nghymru'. Mae Corff y Cynrychiolwyr yn cyflogi holl staff yr Athrofa ac mae hefyd yn rhoi cymorth ac yn darparu fframwaith polisïau ar gyfer swyddogaethau megis Adnoddau Dynol, Materion Cyfreithiol, Materion Ariannol a Thechnoleg Gwybodaeth.

Mae'r Athrofa'n cynnig rhaglenni a ddilysir gan ei thair prifysgol bartner: Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS), Prifysgol Durham a Phrifysgol Caerdydd. Mae PCYDDS yn dilysu'r rhaglen BTh mewn Diwinyddiaeth ar gyfer Disgyblaeth, Gweinidogaeth a Chenhadaeth - gan gynnwys y cyrsiau Tystysgrif a Diploma mewn Addysg Uwch - a'r rhaglen Tystysgrif Addysg Uwch mewn Cenhadaeth a Gweinidogaeth yn y Gweithle (Prentisiaeth). Mae Prifysgol Durham yn dilysu'r rhaglen MA mewn Diwinyddiaeth, Gweinidogaeth a Chenhadaeth - gan gynnwys y cyrsiau Tystysgrif Ôl-radd a Diploma Ôl-radd - a'r rhaglen MA Mewn Astudiaethau Caplaniaeth - gan gynnwys y cyrsiau Tystysgrif Ôl-radd a Diploma Ôl-radd. Mae'r rhaglen MTh mewn Astudiaethau Caplaniaeth, sydd wrthi'n cael ei haddysgu allan, wedi ei hetholfreinio i'r Athrofa gan Brifysgol Caerdydd.

# Y maes beirniadaeth: Dibynadwyedd y safonau academaidd a'u gallu i gael eu cymharu

## Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon (FHEQ)

1 Mae gan yr Athrofa bartneriaethau gyda thair prifysgol ddyfarnu, y mae pob un ohonynt yn cadw'r cyfrifoldeb pennaf am osod y safonau academaidd, ac mae'r Athrofa'n gyfrifol am gynnal safonau academaidd, fel y maent wedi eu hamlinellu mewn memoranda cytundeb, i sicrhau bod y safonau academaidd yn cwrdd â, neu'n mynd yn uwch na, safonau trothwy'r DU sydd wedi eu disgrifio yn y FHEQ.

2 Mae'r Athrofa'n cydnabod ei chyfrifoldeb i gynnal safonau drwy asesu, gan gynnwys asesu a yw'r myfyrwyr wedi cyflawni deilliannau dysgu'r modiwlau sy'n cyfrannu at ddyfarniad. Mae ganddi drefnau a phrosesau effeithiol ar gyfer sicrhau ansawdd sy'n gwneud yn siŵr y cynhelir y safonau trothwy, ac mae'n cymryd rhan yn y gwaith o adolygu'r dyfarniadau presennol sy'n arwain at ail-ddilysu ac addasu rhaglenni. Mae manyleb y rhaglen yn adlewyrchu'r FHEQ a'r Datganiad Meincnodi Pwnc yn fanwl gywir.

## Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC)

3 Mae gofyn i bob darparwr addysg uwch yng Nghymru ddefnyddio FfCChC hefyd wrth alinio cymwysterau a chyflwyno credydau. Mae'r Athrofa wedi ymwreiddio wyth egwyddor FfCChC yn ei pholisïau a'i harferion - er enghraifft, mae wedi llunio Canllaw Asesu sy'n esbonio'n glir sut y dylai aliniad drwy wahanol fathau o asesiad gyflawni'r nod hwn drwy gwblhau deilliannau dysgu, ennill credydau a dyfarnu cymwysterau ar y lefel briodol yn unol â'r safonau trothwy.

4 Mae Arweinwyr y rhaglenni'n gyfrifol am sicrhau bod y berthynas rhwng credydau a nodau dysgu wedi ei nodi'n glir ar gyfer pob modiwl. Mae manylebau'r rhaglenni, disgrifwyr y modiwlau a'r llawlyfrau'n amlinellu sut y mae deilliannau dysgu wedi cael eu modelu ar sail egwyddorion FfCChC sydd ar gael i'r staff ar y rhith-amgylchedd dysgu. Esboniodd yr aelodau o staff y cyfarfu'r tîm â nhw sut y defnyddir y FfCChC yn y gwaith o gynnal safonau academaidd. I gefnogi'r staff i ddeall a gweithredu FfCChC, cynhelir cyfarfod deuddydd i'r staff i gyd dair gwaith y flwyddyn sy'n rhoi cyfle ystyrlon iddyn nhw glywed y diweddaraf am agweddau academaidd a ffurfiannol a chymryd rhan mewn gweithdai a digwyddiadau hyfforddi.

## Yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU

### Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn sicrhau bod y safonau trothwy ar gyfer ei gymwysterau'n gyson â'r fframweithiau cymwysterau cenedlaethol sy'n berthnasol iddynt.

5 Mae'r Athrofa'n gyfrifol am ddarparu'r profiad academaidd i'w myfyrwyr o ddydd i ddydd. Mae ganddi strwythur tair haen i gefnogi darpariaeth ei rhaglenni academaidd. Y Bwrdd Academaidd yw'r corff pennaf ar gyfer gwneud penderfyniadau academaidd, fel sydd wedi ei nodi yn ei gylch gwaith, gyda chefnogaeth Byrddau Rhaglen. Mae'r Bwrdd Academaidd yn gyfrifol am oruchwylio'r prosesau ar gyfer sicrhau a gwella ansawdd, datblygu strategol, derbyn myfyrwyr, ymgysylltu â myfyrwyr a rheoleiddio. At ddibenion y Dyfarniadau Cyffredin, mae'r Bwrdd Academaidd hefyd yn gweithredu fel y Pwyllgor Rheoli. Yn ddiweddar, sefydlwyd Panel Ansawdd a Safonau, a benodir gan Fainc yr Esgobion, sy'n gyfrifol am brosesau llywodraethu academaidd, ansawdd a safonau, a gwelliant parhaus. Cynhelir cyfarfodydd anacademaidd eraill, megis cyfarfodydd wythnosol yr Arweinwyr Uwch, y Cyfarfod Strategaeth chwarterol a'r

Bwrdd Gweithredol, i drafod materion cyffredinol, ariannol a gweithredol. Mae'r trefniadau hyn yn galluogi i'r Athrofa wybod ei bod yn darparu'r cymwysterau ar y safon trothwy ac mewn ffordd sy'n gyson â'r safon cymwysterau cenedlaethol.

### Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn sicrhau bod y myfyrwyr y dyfernir cymwysterau iddynt yn cael y cyfle i gyrraedd safonau sy'n uwch na'r lefel trothwy sy'n cymharu'n rhesymol â'r rheiny a gyflawnir gan fyfyrwyr darparwyr eraill yn y DU.

6 Mae'r Athrofa'n cydnabod ei chyfrifoldeb i gynnal safonau drwy asesu, gan gynnwys asesu a yw'r myfyrwyr wedi cyflawni deilliannau dysgu'r modiwlau sy'n cyfrannu at ddyfarniad. Felly, mae gan yr Athrofa drefnau a phrosesau effeithiol ar gyfer sicrhau ansawdd sy'n gwneud yn siŵr y cedwir at y safonau trothwy. Mae arholwyr allanol yn cadarnhau eu bod yn gymaradwy â dyfarniadau eraill. Mae'r ystod o ddulliau asesu'n weddol gyfyngedig, a gwneir y rhan fwyaf o'r asesiadau ar ffurf traethodau ysgrifenedig. Mae 'Cyfeiriad Strategol 2023-28' yr Athrofa'n dangos bwriad i ddatblygu amrywiol fathau o asesiad, ond ni ddarperir tystiolaeth o hyn. O ystyried natur corff myfyrwyr yr Athrofa a'u cyrchnodau gyrfaol posibl, mae'r tîm adolygu'n ystyried y canlynol yn faes sydd angen ei ddatblygu: dylai'r Athrofa weithio gyda'i chyrff dyfarnu i ddatblygu amrywiaeth ehangach o ddulliau asesu a fydd yn cefnogi ei myfyrwyr i gyflawni amrywiaeth ehangach o ddeilliannau academaidd a phroffesiynol.

7 Mae cydweithrediad yr Athrofa â chyrff megis Partneriaeth Dyfarniadau Cyffredin Prifysgol Durham, ei phartneriaid dyfarnu a'i chyrff eciwmenaidd eraill, yn helpu i sicrhau bod ei chymwysterau'n gymaradwy â'r rheiny a ddyfernir gan ddarparwyr eraill yn y DU.

### Yr arferion craidd: Lle mae'r darparwr yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, mae ganddo drefniadau effeithiol i sicrhau bod safonau ei ddyfarniadau'n sicr ac yn ddibynadwy, lle bynnag neu sut bynnag y darperir y cyrsiau neu pwy bynnag sy'n eu darparu.

8 Darperir rhaglenni Prifysgol Durham yn rhan o'r Bartneriaeth Dyfarniadau Cyffredin rhwng y Brifysgol, Eglwys Loegr, ac 16 Sefydliad Addysg Ddiwinyddol annibynnol. Mae arholwyr allanol, a benodir i bob rhaglen gan y brifysgol bartner berthnasol, yn cael mynediad llawn i raglenni'r Athrofa ar ei rhith-amgylchedd dysgu, ac maen nhw'n rhoi sicrwydd bod safonau academaidd yn cwrdd â'r safon trothwy, eu bod yn briodol ar gyfer lefel yr astudio, a'u bod yn gymaradwy â rhaglenni tebyg a ddarperir gan ddarparwyr addysg uwch eraill. Yn y pendraw, rheolir y broses o ddyfarnu credyd gan y cyrff dyfarnu a'u rheoliadau, ac mae'r trefniadau hyn yn galluogi i'r Athrofa ddangos bod y rhaglenni'n cael eu darparu yn unol â'r safonau a osodir gan y prifysgolion dyfarnu. Cynhelir byrddau arholi naill ai'n fewnol neu'n allanol yn y brifysgol bartner berthnasol.

### Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn defnyddio arbenigedd allanol, ac yn defnyddio prosesau ar gyfer asesu a dosbarthu sy'n ddibynadwy, yn deg ac yn eglur.

9 Hysbysir y gwaith academaidd gan God Ansawdd Addysg Uwch y DU (a ddiwygiwyd yn 2018) mewn perthynas â'i Ddisgwyliadau o ran ansawdd a safonau, a'i Arferion Craidd a Chyffredin. Defnyddir y Cod i hysbysu'r gwaith o ddatblygu polisïau ac arferion, er enghraifft mewn perthynas ag asesu, adolygu mewnol, a defnyddio arbenigedd allanol. Mae rhai aelodau o'r staff yn cymryd rhan yn y gwaith o asesu safonau academaidd mewn sefydliadau addysg uwch eraill. Mae'r aelodau hynny o staff yn defnyddio'r profiad hwnnw i hysbysu eu harferion ac i helpu i sicrhau ansawdd safonau academaidd yr Athrofa.

10 Weithiau, bydd y rhaglenni israddedig wedi eu hysbysu gan, a'u mapio at, y Datganiad Meincnodi Pwnc ar gyfer Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol; mae ei fersiwn diweddaraf,

a gyhoeddwyd yn 2022, wedi ei adlewyrchu'n uniongyrchol yn nogfennau manylebau'r rhaglenni, gan sicrhau bod y rhaglenni'n adlewyrchu'r argymhellion academaidd cyfredol.

**Yr arferion cyffredin: Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd sy'n ymwneud â safonau'n rheolaidd, ac mae'n defnyddio'r canlyniadau i ysgogi datblygiad a gwelliant.**

11 Mae'r Athrofa'n monitro safonau academaidd drwy ei chronfa ddata ei hun, sy'n cael ei defnyddio'n bennaf i gynhyrchu adroddiadau monitro blynyddol mewn meysydd megis ceisiadau, deilliannau dysgu'r myfyrwyr, camymddwyn academaidd ac amgylchiadau esgusodol. Ar adeg yr adolygiad, roedd yr Athrofa wrthi'n datblygu strwythur ei chronfa ddata ymhellach i hwyluso prosesau adrodd yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch. Trwy benodi Gweinyddwr y Gofrestrfa'n ddiweddar, mae cyfleoedd gwell ar gael erbyn hyn i'r staff ddadansoddi data sy'n ymwneud â'u carfan myfyrwyr a helpu i farchnata eu rhaglenni i ddarpar fyfyrwyr.

## Y Disgwyliadau o ran Safonau sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU

12 Mae gan dri chorff dyfarnu'r Athrofa'r cyfrifoldeb cyffredinol am osod safonau academaidd ond mae'r Athrofa'n cydnabod ei chyfrifoldeb am gynnal safonau drwy asesiad ac am sicrhau bod deilliannau dysgu'n cael eu cyflawni. Mae'r Athrofa wedi ymwreiddio wyth egwyddor FfCChC yn ei pholisïau a'i harferion, gan gynnwys yn ei chanllawiau asesu. Mae trefn glir ar gyfer darparu rhaglenni academaidd a rhoi profiad ystyrlon i'r myfyrwyr. Mae gan yr Athrofa brosesau sicrhau ansawdd effeithiol i wneud yn siŵr bod y safonau trothwy'n cael eu cyflawni. Cadarnheir hyn gan arholwyr allanol. Galluogir cyfranogaeth â sefydliadau eraill drwy weithio â sefydliadau addysg uwch partner a sefydliadau eraill Eglwys Loegr. Mae cronfeydd data'r Athrofa wrthi'n cael eu datblygu ymhellach i wella prosesau monitro ac adrodd.

## Y feirniadaeth

13 I ffurfio ei feirniadaethau, archwiliodd y tîm adolygu ystod eang o dystiolaeth ddogfennol, sy'n cynnwys dogfen hunanwerthusiad a chyflwyniad y myfyrwyr, a thystiolaeth ategol a ddarparwyd gan yr Athrofa a'i chyrff dyfarnu. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r myfyrwyr, y staff uwch, y staff academaidd a'r staff cymorth ar y safle oedd yn darparu gwybodaeth ac eglurhad ychwanegol i ddangos bod safonau academaidd y cyrsiau'n bodloni gofynion y fframweithiau cymwysterau cenedlaethol sy'n berthnasol iddynt (y *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon*; *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru*; a'r Disgwyliadau, yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin mewn perthynas â safonau sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU); a bod y cymwysterau a ddyfernir yn gyfatebol i'r safonau a gydnabyddir gan y sector.

14 Gellir teimlo hyder bod y safonau academaidd yn ddibynadwy, yn bodloni gofynion y DU, ac yn cymharu'n rhesymol â'r safonau a osodir ac a gyflawnir gan ddarparwyr eraill yn y DU.

# Y maes beirniadaeth: Ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr

## Yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU

### Yr arferion craidd: Mae gan y darparwr system dderbyn sy'n deg, yn ddibynadwy ac yn gynhwysol.

15 Mae'r polisi derbyn yn amlinellu pob agwedd o'r broses dderbyn. Mae dogfennau cefnogol ar gael am y broses, er enghraifft, datblygwyd canllaw hawdd ei darllen i fyfyrwyr am y broses dderbyn. Mae'r broses dderbyn yn gadarn, yn deg ac yn gynhwysol, a'i nod yw denu demograffeg amrywiol o fyfyrwyr. Mae'r gefnogaeth i ymgeiswyr yn gryf, ac mae hi'n hyblyg o ran ffioedd, bwrsariaethau i aelodau o'r Eglwys a chymorth ychwanegol i'r myfyrwyr hynny sy'n astudio i fod yn weinidogion. Hefyd, adolygir y prosesau derbyn yn flynyddol, gan gynhyrchu adroddiadau. Gwneir addasiadau rhesymol i ymgeiswyr ag anableddau ac mae'r ethos hwn yn parhau drwy gydol y cyfnod astudio. Un o'r cryfderau arbennig yn y broses dderbyn yw hyblygrwydd yr ystyriaeth i ymgeiswyr nad ydynt efallai'n bodloni'r meini prawf mynediad safonol. Rhoddir cyfleoedd iddynt ddangos eu bod yn barod i astudio, megis drwy gynhyrchu asesiad ysgrifenedig neu gymryd rhan yn y modiwl cynefino i israddedigion. Mae hyn yn golygu bod myfyrwyr sydd heb gymwysterau ffurfiol efallai, ond sy'n alluog fel arall, yn gallu cael lle. Mae'r cymorth yn parhau ar ôl mynediad gydag amrywiaeth o opsiynau cyllido y gall y rheiny sy'n wynebu rhwystrau ariannol gael gafael arnynt. Mae addasiadau rhesymol ar gyfer anableddau a datblygiad ymatebol adnoddau cymorth dysgu hefyd yn hyrwyddo cynhwysiant. Trwy ystyried derbyn ymgeiswyr sydd â chymwysterau ansafonol a gwneud beirniadaethau proffesiynol ar botensial a phroffil llawn ymgeiswyr, gwneir ymdrechion bwriadol i ehangu mynediad.

16 Roedd trafodaethau yn ystod y cyfarfod â myfyrwyr yn cefnogi'r hyn a amlinellwyd yn y dogfennau a gyflwynwyd cyn yr ymweliad. Roedd y myfyrwyr i gyd yn fodlon iawn gyda'r broses dderbyn. Roedd un o'r myfyrwyr wedi cwblhau cwrs blasu cyn dechrau'r astudiaethau, ac roedd hyn wedi ei helpu i drosglwyddo yn ôl i addysg uwch. Roedd y cyfarfod gydag aelodau o'r staff academaidd a'r staff cymorth wedi amlinellu'r broses dderbyn a'r cyfle i fyfyrwyr ddatgelu anghenion dysgu ychwanegol. Er nad yw'r myfyrwyr yn cymryd yr opsiwn hwn ar y dechrau bob tro, mae'r staff yn gwneud yn siŵr bod y myfyrwyr yn gwybod am y cymorth sydd ar gael iddyn nhw unwaith y maent wedi cofrestru ac mae ganddynt hefyd gyfeiriad e-bost y tîm cymorth dysgu er mwyn dileu unrhyw rwystrau a allai eu hatal rhag datgelu anghenion.

### Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn llunio a/neu'n darparu cyrsiau o safon uchel.

17 Y Bwrdd Academaidd yw'r pwyllgor allweddol yn yr Athrofa sy'n gyfrifol am adolygu a chymeradwyo rhaglenni newydd yn fewnol, o dan arweiniad y Panel Ansawdd a Safonau. Yna, mae'r brifysgol bartner berthnasol yn dilysu'r rhaglenni'n allanol. Yn y pendraw, y cyrff dyfarnu sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r ddarpariaeth yn yr Athrofa. Darperir nifer o raglenni yn yr Athrofa drwy gytundebau dilysu gyda Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) a Phrifysgol Durham. Mae'r partneriaethau hyn yn goruchwylio'r safonau academaidd a'r prosesau sicrhau ansawdd.

18 Mae'r rhaglen MTh mewn Astudiaethau Caplaniaeth, sydd wedi ei hetholfreinio i'r Athrofa gan Brifysgol Caerdydd, wrthi'n cael ei haddysgu allan, ac ni chafwyd unrhyw recriwtiad i'r rhaglen yn y tair blynedd diwethaf. Mae'r cynllun 'addysgu allan' ar gyfer rhaglen y Brifysgol yn cynnwys parhau'r trefniadau darparu presennol i alluogi i'r myfyrwyr gwblhau eu hastudiaethau. Mae'r staff addysgu wedi cadw eu statws Darlithydd Mygedol fel eu bod yn gallu defnyddio adnoddau a systemau'r brifysgol bartner. Mae addysgu'n parhau drwy gyfleoedd astudio preswyl yn yr Athrofa gyda chymorth ar-lein. Mae cyfarfodydd misol gyda'r Ysgol Hanes, Archeoleg, Crefydd ac Addysg yn canolbwyntio ar brofiad y myfyrwyr yn ystod y broses 'addysgu allan'.

Yn ddiweddar, mae'r byrddau arholi wedi dyfarnu graddau i'r myfyrwyr hynny a gwblhaodd y rhaglen, ac mae un myfyriwr yn weddill sydd ar y trywydd cywir i gyflwyno'u traethawd. Mae hyn yn dangos bod y myfyrwyr wedi derbyn cefnogaeth briodol i'w galluogi i ennill eu cymwysterau yn ystod y broses 'addysgu allan'.

19 Mae Partneriaeth Dyfarniadau Cyffredin Prifysgol Durham yn cynnig mwy nag 80 o fodiwlau a ddilysir y mae ei phartneriaid yn eu defnyddio i adeiladu llwybrau sy'n ateb anghenion y myfyrwyr a gofynion yr enwadau, gan hefyd gyfateb â deilliannau a strwythurau rhaglenni'r Brifysgol. Mae'r Rheoliadau Rhaglenni T3, Tabl Trosolwg Modiwlau T4, a Dogfen Fapio Cwricwlwm T5 yn cael eu darparu'n flynyddol i'r Bartneriaeth Dyfarniadau Cyffredin ac mae'r rhain yn dangos sut i fapio modiwlau'n effeithiol yn erbyn gofynion y Brifysgol wrth gynllunio a darparu eu rhaglenni.

20 Dechreuodd darpariaeth y rhaglen BTh mewn Diwinyddiaeth ar gyfer Disgyblaeth, Gweinidogaeth a Chenhadaeth PCYDDS yn 2016 ac ychwanegwyd ei rhaglen Tystysgrif mewn Cenhadaeth a Gweinidogaeth yn y Gweithle (Prentisiaeth) yn 2023, gan ddarparu'r elfen academaidd o gynllun prentisiaeth lefel 4. Darperir yr elfen ddysgu yn y gweithle gan Goleg Sir Gâr, sy'n rhan o Grŵp PCYDDS ac sy'n arbenigo mewn cyrsiau galwedigaethol a chyrsiau prentisiaeth. Mae PCYDDS yn goruchwylio'r elfen academaidd a'r elfen ddysgu yn y gweithle o'r rhaglen brentisiaeth newydd hon, a redir ar y cyd gan Athrofa Padarn Sant a Choleg Sir Gâr. Rhoddodd y prentisiaid cyfredol sylwadau cadarnhaol am y ffaith bod y rhaglen wedi rhoi hwb i'w gyrfaoedd, ac am y cydweithrediad effeithiol rhwng y ddau ddarparwr i ddarparu'r rhaglen.

21 Mae'r Athrofa'n ymgysylltu ac ymgynghori â'r myfyrwyr mewn amrywiol ffyrdd mewn perthynas â llunio a darparu eu rhaglenni. Yn gyntaf, ceisir barn y myfyrwyr yn ffurfiol yn ystod digwyddiadau dilysu ac adolygu cyfnodol - er enghraifft, yn ystod cyfarfodydd gydag aelodau'r panel. Yn ail, drwy lwybrau eraill - er enghraifft, cafwyd ymgynghoriad â'r myfyrwyr ynglŷn â symud i ddarparu'r rhaglen BTh ran amser yn gyfan gwbl ar-lein.

### Yr arferion craidd: Mae gan y darparwr nifer ddigonol o staff sydd â'r cymwysterau a'r sgiliau priodol i ddarparu profiad academaidd o safon uchel.

22 Mae polisi datblygiad staff yr Athrofa'n nodi ymrwymiad amlwg i gefnogi pob aelod o staff yn eu rôl, gan gynnwys mewn perthynas â'u sgiliau mewn gwaith ymchwil, ysgolheictod ac addysgeg. Rhoddwyd gwybod i'r tîm adolygu am gyfleoedd datblygu ystyrlon yr oedd staff yn cymryd rhan ynddynt, neu yr oeddent wedi cymryd rhan ynddynt, er enghraifft, rhoi cyflwyniadau mewn cynadleddau, cyflwyno erthyglau ymchwil i'w cyhoeddi, a gwneud gwaith i ennill gradd PhD. Mae pob aelod newydd o'r staff yn dilyn rhaglen ymsefydlu safonol, a chânt eu cefnogi'n effeithiol gan yr Arweinydd Rhaglen mewn Diwinyddiaeth sydd wedi e benodi'n fentor i staff newydd. Hefyd, mae staff yr Athrofa'n mynychu cynadleddau partner blynyddol gyda PCYDDS a Phrifysgol Durham.

23 Mae'r Athrofa'n sicrhau bod gan ei staff y cymwysterau priodol, ac mae gan bob aelod o staff sy'n addysgu ar raglenni academaidd radd meistr o leiaf, ac mae gan y rhan fwyaf ohonynt radd PhD. Mae gofynion eglur i'r tiwtoriaid fod â chymwysterau perthnasol sydd un lefel yn uwch na lefel y modiwlau y maent yn eu haddysgu. Mae curricula vitae'r staff addysgu'n dangos bod ganddynt arbenigedd a phrofiad eang sy'n berthnasol i'w meysydd addysgu. Gallai cymdeithion a siaradwyr gwadd addysgu ar bob lefel o'r rhaglen ond rhaid iddynt gael cymeradwyaeth y Pennaeth ac mae arweinwyr modiwlau'n goruchwylio eu cyfraniadau. Mae'r Athrofa'n buddsoddi mewn datblygu sgiliau addysgu ei staff ac mae gan bob aelod o'r staff addysgu statws Cymrawd Cyswllt Advance HE o leiaf, a chefnogir aelodau newydd o staff i ennill y statws Cymrawd priodol. Yn 2022, cafwyd hyfforddiant datblygu gan ddarparwr allanol ar gynorthwyo dysgu'r myfyrwyr ac alinio â gofynion FfCChC. Mae proses adolygu gan gymheiriaid yn sicrhau ansawdd yr arferion addysgu.

24 Mae'r llwyth gwaith addysgu safonol sydd gan aelodau staff sy'n addysgu'n llawn amser a'r amser a glustnodir ar gyfer gwaith ymchwil a gweithgareddau ysgolheigaidd, yn dangos bod disgwyl i'r holl staff addysgu gyfrannu at y gymuned eglwysig ehangach drwy ymchwil, ysgrifennu neu siarad fel rhan o'u rôl. Clywodd y tîm adolygu fod aelodau o'r staff yn ymwneud ag amrywiaeth o weithgareddau ymchwil, er enghraifft, cyhoeddiadau a adolygwyd gan gymheiriaid, monograffau, a chyfranogaeth mewn cynadleddau. Mae cyfle i'r staff wneud cais am amser wedi'i glustnodi i wneud gwaith ymchwil. Hefyd, cefnogir staff i fynychu cynadleddau a phrynu deunyddiau ymchwil. Daeth y Strategaeth Ymchwil a fabwysiadwyd yn ddiweddar allan o argymhelliad yr Adolygiad Allanol Cyfnodol. Mae hyn yn dangos ymrwymiad yr Athrofa i hwyluso gwaith ymchwil a gweithgareddau ysgolheigaidd ei staff.

25 Mae staff y gwasanaethau proffesiynol hefyd yn derbyn datblygiad parhaus, yn cynnwys cymwysterau addysg uwch, i gefnogi eu rolau. Mae ehangder yr arbenigedd arbenigol ar draws y tîm addysgu, ynghyd â'r ymrwymiad i ddatblygiad addysgol a phroffesiynol parhaus, yn dangos bod gan yr Athrofa ddigon o staff sydd â'r sgiliau a'r cymwysterau priodol i'w galluogi i ddarparu dysgu ac addysgu o safon uchel.

### Yr arferion craidd: Mae gan y darparwr gyfleusterau, adnoddau dysgu a gwasanaethau cefnogi myfyrwyr sy'n briodol ac yn ddigonol i ddarparu profiad academaidd o safon uchel.

26 Dros y pedair blynedd diwethaf, mae'r Athrofa wedi buddsoddi'n sylweddol mewn uwchraddio'r cymorth dysgu y mae'n ei ddarparu, mewn ymateb i'r gyfran uchel (tua thraean) o fyfyrwyr sydd wedi datgelu anabledd neu anhawster dysgu. Mae tîm cymorth dysgu penodol sy'n helpu'r myfyrwyr i lywio'r broses o wneud cais am Lwfans Myfyrwyr Anabl, yn datblygu cynlluniau dysgu unigol, ac yn darparu cymorth arbenigol - mae hyn yn dangos ymrwymiad cryf i ddarparu profiad academaidd cynhwysol. Yn dilyn sesiynau diweddaru rheolaidd i'r staff i gyd am y polisi cymorth dysgu, gwneir addasiadau rhesymol mewn ymateb i anghenion y myfyrwyr.

27 Yn yr Adolygiad Allanol Cyfnodol a wnaed yn 2022 yn rhan o broses sicrhau ansawdd allanol annibynnol yr Eglwys yng Nghymru, disgrifiwyd llyfrgell ac adnoddau dysgu'r Athrofa fel rhai 'da ac effeithlon'. Buddsoddwyd yn sylweddol mewn adnoddau llyfrgell electronig a ffisegol; o ganlyniad, mae casgliad eang o e-lyfrau a chylchgronau ar gael, o bell ac ar y safle, sydd wedi ei deilwra i anghenion y myfyrwyr. Mae arbenigedd y Llyfrgellydd yn gwella'r ddarpariaeth ymhellach drwy gefnogi'r myfyrwyr i ganfod deunyddiau a chael cymorth ymchwil a chafodd ei ganmol yn fawr gan fyfyrwyr yn ystod yr ymweliad adolygu.

28 Mae gwybodaeth fanwl a chymorth ar gael i'r myfyrwyr ynglŷn â sut i ddefnyddio'r rhith-amgylchedd dysgu, meddalwedd MS Office 365, e-bost a thechnolegau eraill sy'n rhan annatod o'u dysgu. Mae hefyd ddulliau priodol i fyfyrwyr roi adborth uniongyrchol am yr adnoddau a gweithredir ar yr adborth hwn gan yr Athrofa.

29 Mae'r dosraniad o adnoddau'n cael ei adolygu'n rheolaidd drwy ddadansoddi data am y defnyddwyr, drwy drafodaeth ar nifer o wahanol fyrddau gydag aelodaeth y myfyrwyr, ac yn anffurfiol drwy ymgysylltiad aelodau uwch o'r staff gyda'r myfyrwyr yn ystod amser cinio. Mae'r ymatebolrwydd hwn yn dangos ymhellach ymrwymiad yr Athrofa i ddarparu adnoddau digonol sy'n cael eu teilwra i anghenion newidiol y myfyrwyr, a chyfeiriwyd yn gadarnhaol at hyn gan y myfyrwyr yn ystod y cyfarfod gyda'r tîm adolygu

30 Er bod yr adborth yn gadarnhaol ar y cyfan, mae rhywfaint o le i gryfhau cyfraddau ymateb yr adborth i'r modiwlau ar-lein, yn enwedig mewn perthynas â'r fformatau gorau i'r holiadur. Mae uwch dîm yr Athrofa'n ymwybodol o hyn ac yn ymgysylltu'n weithredol â'r staff a'r myfyrwyr i ddatblygu proses o gasglu adborth am fodiwlau sy'n addas i'w phwrpas, nid yn feichus yn eu cwblhad a byddent yn darparu data defnyddiol i bennu, cefnogi ac ysgogi gwelliant.

Hefyd, mae sianelau ffurfiol ac anffurfiol eraill ar gael i'r myfyrwyr roi adborth am eu modiwlau a'u profiadau.

## Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn cymryd camau i gynnwys ei fyfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, yn y prosesau o sicrhau a gwella ansawdd eu profiad addysgol.

31 Roedd cyflwyniad y myfyrwyr yn tynnu sylw at lawer o esiamplau cadarnhaol lle mae myfyrwyr wedi cyfranogi yn ansawdd eu profiad addysgol. Dyma rai esiamplau o newidiadau a wnaed mewn ymateb i adborth gan fyfyrwyr: symudwyd o ddull cyfunol i ddull o ddarparu'r rhaglen BTh ran amser yn gyfan gwbl ar-lein; cyflwynwyd y modiwl rheolaeth emosiynol yn y rhaglen MA mewn Astudiaethau Caplaniaeth; a chyflwynwyd modiwl newydd mewn diwinyddiaeth ac ecoleg i'r rhaglen MA mewn Diwinyddiaeth, Gweinidogaeth a Chenhadaeth.
Mae cynrychiolwyr y myfyrwyr yn eistedd ar bob Bwrdd Rhaglen a phob Bwrdd Academaidd, ac mae'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn llunio adroddiad pob cyfarfod Panel Ansawdd a Safonau.

32 Rhoddodd y cyfarfod â'r myfyrwyr a'r cyfarfod â staff academaidd a staff cymorth ragor o esiamplau o gamau a gymerwyd i gynnwys y myfyrwyr mewn prosesau o wella ansawdd eu profiadau. Dywedodd y myfyrwyr eu bod yn teimlo bod derbyniad da i lais y myfyrwyr, ac roedden nhw'n fodlon bod camau'n cael eu cymryd yn dilyn hynny. Tynnodd y cyfarfod â staff academaidd/cymorth sylw at y ffaith bod grŵp adborth yn cael ei ddefnyddio lle gallai staff drafod adborth a godir mewn ffordd ffurfiol a phenderfynu ar y ffordd orau o weithredu mewn ymateb iddo.

33 Mae'r myfyrwyr ar bob rhaglen achrededig yn ethol cynrychiolwyr o'u plith sy'n derbyn canllawiau am eu rôl. Yn ogystal, etholir Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr o blith y myfyrwyr llawn amser sy'n mynychu cyfarfodydd y Byrddau Rhaglen, y Bwrdd Academaidd a'r Panel Ansawdd a Safonau.

## Yr arferion craidd: Mae gan y darparwr weithdrefnau teg ac eglur sydd ar gael i'r myfyrwyr i gyd, ar gyfer ymdrin â chwynion ac apeliadau.

34 Cyflwynodd yr Athrofa ddogfennau i amlinellu ei pholisi cwynion a'i pholisi apeliadau academaidd. Roedd hyn o gymorth i'r tîm adolygu ddeall sut y cafodd y materion hyn eu trin a chyfranogaeth y sefydliadau partner yn y broses.

35 Cadarnhaodd y cyfarfod â myfyrwyr bod y dogfennau'n bodoli a bod y myfyrwyr yn eu deall yn dda, a bod y polisïau ar gyfer cwynion ac apeliadau'n derbyn sylw yn ystod eu cyfnod cynefino. Roedd y cyfarfod â staff uwch o gymorth i bennu manylion y polisïau a chyfranogaeth y prifysgolion partner mewn ymdrin â chwynion ac apeliadau. Oherwydd maint a natur yr Athrofa, roedd hi'n ymddangos bod modd datrys problemau'n anffurfiol yn aml iawn. Roedd y myfyrwyr yn gwbl ymwybodol o'r gweithdrefnau ffurfiol sydd ar waith a'r cyfleoedd sydd ar gael iddyn nhw dderbyn ystyriaeth allanol i'w cwynion a'u hapeliadau.

## Yr arferion craidd: Lle mae'r darparwr yn cynnig graddau ymchwil, mae'n eu darparu mewn amgylcheddau ymchwil sy'n addas ac yn gefnogol.

36 Nid yw'r Athrofa'n cynnig unrhyw raddau ymchwil. Felly, nid yw'r arferion craidd hyn yn berthnasol.

## Yr arferion craidd: Lle mae'r darparwr yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, mae ganddo drefniadau effeithiol i sicrhau bod y profiad academaidd o safon uchel, lle bynnag neu sut bynnag y darperir y cyrsiau neu pwy bynnag sy'n eu darparu.

37 Mae gan yr Athrofa drefniadau effeithiol gyda'i thair prifysgol bartner (PCYDDS, Prifysgol Durham, Prifysgol Caerdydd) i sicrhau bod y myfyrwyr yn cael profiad academaidd o safon uchel. Dangosir hyn gan y Memoranda Cytundeb manwl sy'n rhoi amlinelliad clir o gyfrifoldebau'r ddwy ochr i sicrhau a chynnal ansawdd profiad y myfyrwyr. Ceir trosolwg mewn cyfarfodydd adolygu rheolaidd gyda'i phartneriaid - er enghraifft, monitro blynyddol gan Brifysgol Durham ac ymweliadau gan Arweinydd Tîm Partneriaeth PCYDDS.

38 Mae'r Athrofa'n gweithredu prosesau sicrhau ansawdd mewnol, yn cynnwys Byrddau Rhaglen, o dan oruchwyliaeth y Bwrdd Academaidd. Cedwir cofnodion manwl - er enghraifft, cofrestrau o aelodau staff a siaradwyr gwadd sydd wedi'u cymeradwyo i addysgu - ac mae'r rhain yn rhoi sylw i'r manion bethau. Mae'r prosesau adborth hefyd yn dangos dull rhagweithiol. Mae cynrychiolwyr y myfyrwyr yn eistedd ar bwyllgorau allweddol a cheir ymgynghoriad am unrhyw newidiadau arfaethedig. Yn yr un modd, mae'r Athrofa'n cynnwys rhanddeiliaid allanol mewn prosesau gwella ansawdd academaidd. Mae'r Panel Ansawdd a Safonau'n darparu mewnbwn allanol gan grwpiau perthnasol, megis y Cyfarfod Strategaeth rhwng yr Eglwys yng Nghymru a'r Athrofa. Hefyd, mae'r Athrofa'n manteisio ar gyfleoedd i hyfforddi a rhannu arferion da drwy gymryd rhan yng nghyrff y sector, megis Cynhadledd Flynyddol PCYDDS a Fforwm Dyfarniadau Cyffredin y Sefydliadau Addysg Ddiwinyddol.

39 Mae'r Gofrestrfa'n casglu ac yn dadansoddi data am gyflawniad y myfyrwyr, gan ddefnyddio metrigau megis canrannau o raddau anrhydedd 'da', a manylion demograffeg (fesul rhywedd, dull astudio, anabledd, statws yr ymgeisydd). Rhoddir adroddiad am y data hwn yng nghyfarfodydd y Bwrdd Arholi, y Bwrdd Academaidd, y Bwrdd Gweithredol, a'r Panel Ansawdd a Safonau. Hefyd, dadansoddir cyflawniad ar lefel modiwl i gymharu perfformiad rhwng dulliau astudio. Os cyfyd unrhyw anomaleddau, mae hyn yn hybu trafodaeth ar unwaith gydag arweinwyr y modiwlau am brofiad y myfyrwyr a chyfleoedd posibl i'w wella. Mae data am bob rhan o'r sefydliad yn hysbysu'r prosesau o wneud penderfyniadau a gwerthuso arferion - er enghraifft, mae'r data am gyflawniad y myfyrwyr hynny sydd wedi datgelu anableddau'n awgrymu bod y prosesau cymorth dysgu sydd wedi eu rhoi ar waith yn effeithiol. Mae'r Bwrdd Academaidd a'r Panel Ansawdd a Safonau'n caniatáu i arferion gorau yn y gwahanol raglenni gael eu rhannu ar draws y sefydliad.

### Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn cefnogi ei fyfyrwyr i gyd i gael canlyniadau llwyddiannus ar lefelau academaidd a phroffesiynol.

40 Roedd y ddogfen hunanwerthusiad yn amlinellu'r ffaith bod nifer o ddulliau yn eu lle i helpu'r myfyrwyr i gyflawni deilliannau academaidd a phroffesiynol. Adolygir adroddiadau blynyddol am ddeilliannau dysgu'r myfyrwyr yng nghyfarfodydd y Byrddau Rhaglen mewnol a'r Panel Ansawdd a Safonau. Mae'r dull o ddarparu nifer o'r rhaglenni drwy astudio preswyl yn galluogi i'r myfyrwyr gael profiad ymarferol ochr yn ochr â'u hastudiaethau academaidd.

41 Teimlai'r myfyrwyr eu bod yn derbyn cefnogaeth academaidd a bugeiliol dda. Roedd arweinwyr y modiwlau o gymorth mawr gyda'r materion academaidd ac roedd gan bob myfyriwr diwtor personol a allai eu helpu gyda gofal bugeiliol. Nododd y myfyrwyr y gefnogaeth sydd ar gael iddynt gan y staff cymorth i'w helpu i lwyddo'n academaidd. Roedd yr esiamplau a roddwyd yn dangos sut roedd yr Athrofa'n gallu darparu cymorth i fyfyrwyr unigol ar ôl eu cynefino - er enghraifft, drwy eu helpu i gael diagnosis o ddyslecsia neu ddarparu sesiynau cymorth sgiliau astudio iddyn nhw. Dywedwyd bod y Llyfrgellydd yn ffynhonnell ragorol o gefnogaeth sydd wedi helpu'r myfyrwyr i lwyddo. Roedd y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm â nhw ychydig yn feirniadol am yr adborth a gawsent am eu gwaith a asesir, gan ddweud ei fod weithiau'n anghyson, yn anaddas o ran amser, yn gyfyngedig a heb ddarparu digon o wybodaeth i wella ansawdd eu gwaith. Mae'r tîm yn ystyried y canlynol yn faes sydd angen ei ddatblygu: dylid sicrhau y rhoddir adborth ar asesiadau i'r myfyrwyr mewn da bryd ac y cefnogir pob myfyriwr yn eu datblygiad academaidd a phroffesiynol.

### Yr arferion cyffredin: Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd sy'n ymwneud ag ansawdd yn rheolaidd, ac mae'n defnyddio'r canlyniadau i ysgogi datblygiad a gwelliant.

42 Mae'r Athrofa wedi sefydlu prosesau trwyadl ac amlhaenog o adolygu ansawdd yn rheolaidd, gan ddefnyddio eu canlyniadau i ysgogi gwelliannau dangosadwy. Mae ganddi ymrwymiad amlwg i wella ansawdd yn barhaus. Mae'r Byrddau Rhaglen yn cyfarfod bob tymor i adolygu'r ffordd y darperir y rhaglenni a'u hansawdd. Adroddir am unrhyw broblemau a ganfyddir i'r Bwrdd Academaidd, sy'n gyfrifol am oruchwylio ansawdd academaidd pob rhaglen. Mae'r Panel Ansawdd a Safonau, sy'n cynnwys arbenigwyr mewnol ac allanol, yn adolygu ansawdd ac yn ysgogi gwelliant hefyd.

43 Un dull adolygu allweddol yw'r broses hunanasesu flynyddol lle mae Arweinwyr Rhaglen yn myfyrio ar y flwyddyn flaenorol - h.y. yn gwerthuso cryfderau, gwendidau a blaenoriaethau. Trwy gyflwyno'r dogfennau hyn i'r Panel Ansawdd a Safonau gellir sicrhau beirniadaeth allanol ddefnyddiol. Mae hyn yn cyfrannu at yr ymrwymiad sydd wedi ei nodi yn y Cynllun Strategol i wella ansawdd yn barhaus. Elfen bwysig arall yn y strwythur yw'r Grŵp Adborth sy'n cyfarfod bob chwarter. Trwy gasglu adborth gellir canfod patrymau y mae angen gweithredu arnynt. Anfonir crynodebau at y Pennaeth sy'n sicrhau bod camau dilyniant yn cael eu cymryd. Mae'r dull hwn o brosesu adborth yn rheolaidd yn hwyluso gwelliant mewn ansawdd.

44 Mae prosesau adolygu ffurfiol gyda'r prifysgolion partner yn hwyluso gwelliant parhaus hefyd. Mae PCYDDS yn adolygu'r bartneriaeth bob pum mlynedd, gydag adolygiad interim hanner ffordd drwy bob cylch. Rhaid i'r prifysgolion partner gael proses hunanwerthuso flynyddol gyda chyfarfodydd dilyniant. Mae'r gwahanol safbwyntiau a roddir yn hwyluso myfyrio ystyrlon ar yr arferion. Mae cyfranogaeth y myfyrwyr yn allweddol hefyd i brosesau adolygu'r Athrofa, gyda chyfranogaeth y myfyrwyr ar gyrff perthnasol. Cesglir adborth gan y myfyrwyr yn ffurfiol ac yn rheolaidd drwy holiaduron ac adroddiadau. Mae ymgynghoriadau â myfyrwyr, er enghraifft ar newidiadau arfaethedig i raglenni, yn rhoi mewnbwn pellach. Mae'r ymgysylltiad hwn â'r myfyrwyr sy'n rhan annatod o'r prosesau'n cyfoethogi gweithgareddau adolygu parhaus.

### Yr arferion cyffredin: Mae dulliau'r darparwr o reoli ansawdd yn cynnwys defnyddio arbenigedd allanol.

45 Mae'r Athrofa'n defnyddio arbenigedd allanol yn rhagweithiol mewn amrywiol ffyrdd i werthuso'n feirniadol a gwella'r ffordd y rheolir ansawdd academaidd. Mae'r Panel Ansawdd a Safonau, sy'n goruchwylio'r ansawdd academaidd a'r prosesau o'i reoli a'i wella, yn cynnwys arweinwyr uwch ym maes addysg uwch ac yn yr Eglwys. Mae'r prifysgolion dilysu hefyd yn darparu mewnbwn allanol. Mae arholwyr allanol a benodir gan y brifysgol berthnasol yn adolygu cyflawniad y myfyrwyr ar bob rhaglen i sicrhau ei fod yn gyfatebol â dyfarniadau gan ddarparwyr eraill, a nododd yr arholwr ôl-raddedig bod y gwaith yn 'cymharu'n dda â sefydliadau eraill'. Mae Arweinydd Tîm Partneriaeth PCYDDS yn asesu sut y cynhelir safonau drwy ymweliad blynyddol ac adroddiadau ddwywaith y flwyddyn. Hefyd, mae Prifysgol Durham yn adolygu safonau a pholisïau drwy broses hunanwerthuso flynyddol.

46 Dangosodd datblygiad y rhaglen brentisiaeth newydd eu bod yn defnyddio arbenigedd allanol - er enghraifft, penodwyd aseswr allanol gan y Brifysgol i adolygu'r broses o ddatblygu a dogfennu'r rhaglen a rhoi sylwadau arni. Mae Cyfarwyddwr Profiad Academaidd PCYDDS wedi helpu i amrywio asesiadau i gyd-destun prentisiaeth. Hefyd, rhoddwyd safbwynt eciwmenaidd gan Grŵp Cyfeirio o gynrychiolwyr cyrff enwadol. Mae cyfranogaeth barhaus mewn rhwydweithiau yn y sector yn dangos ystyriaeth o safbwyntiau allanol ehangach ac yn golygu bod mwy o ddylanwad allanol. Mae'r Pennaeth yn gwneud Adolygiadau Ansawdd i Dîm Datblygu Gweinidogaeth Cyngor yr Archesgobion. Mae aelodau o'r staff yn gweithio fel arholwyr allanol mewn sefydliadau eraill, yn gweithio gyda chyrff cydweithredol ac yn cymryd rhan mewn gwaith ymchwil y tu hwnt i'r Athrofa.

**Yr arferion cyffredin: Mae'r darparwr yn cynnwys ei fyfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, yn y prosesau o ddatblygu, sicrhau a gwella ansawdd eu profiad addysgol.**

47 Mae'r Athrofa'n cydnabod anghenion ei phoblogaeth myfyrwyr, oherwydd mae llawer o fyfyrwyr yn dychwelyd i addysg uwch ar ôl cyfnod o beidio astudio, ac mae hi wedi datblygu sesiynau sgiliau astudio ychwanegol i'r myfyrwyr a llawlyfr sy'n rhoi rhagor o gefnogaeth ac arweiniad iddynt.

48 Soniodd y ddogfen hunanwerthusiad bod cynnwys 'gwelliant' fel eitem sefydlog ar agenda pob cyfarfod Bwrdd Rhaglen/Academaidd yn ddewis bwriadol i sicrhau bod ansawdd profiad addysgol y myfyrwyr yn cael ei adolygu'n barhaus. Dyma rai esiamplau o'r materion a godwyd o ganlyniad i adborth gan y myfyrwyr: technolegau deallusrwydd artiffisial, cefnogi myfyrwyr sydd ag anawsterau dysgu, a phroblemau yn ymwneud ag asesiadau ac adborth. Hefyd, mae system gynrychiolaeth y myfyrwyr wedi ei sefydlu'n dda ac mae gan bob rhaglen o leiaf un cynrychiolydd myfyrwyr sy'n mynychu cyfarfodydd y Bwrdd Rhaglen i gyflwyno eu hadroddiadau. Yn ogystal, mae'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn aelod o'r Panel Ansawdd a Safonau ac yn rhoi adroddiad yn y fforwm hwnnw i gynrychioli llais y myfyrwyr.

49 Yn ôl yr hyn a ddywedodd y myfyrwyr, roedden nhw'n teimlo'n fodlon bod cyfleoedd i roi adborth ar gael drwy gydol y cwrs a bod newidiadau bychain yn cael eu datrys yn gyflym. Roedd gwerthusiadau o fodiwlau'n enghraifft dda o'r ffordd yr oedd yr Athrofa'n cynnwys y myfyrwyr yn y prosesau sicrhau ansawdd. Ond, er bod yr Athrofa'n casglu adborth, nodwyd bod cyfnod hir yn pasio ar brydiau cyn gweld newid a chamau gweithredu dilynol.

## Y Disgwyliadau o ran Ansawdd sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU

50 Mae rôl a chyfrifoldebau Athrofa Padarn Sant a'i pherthynas gyda'i phrifysgolion dilysu wedi eu dogfennu'n glir. Y Byrddau Rhaglen, y Byrddau Academaidd a'r Panel Ansawdd a Safonau yw elfennau'r strwythur tair haen i werthuso'r ansawdd a'r cymorth sydd eu hangen i helpu'r myfyrwyr i elwa a llwyddo yn ystod eu hamser yn yr Athrofa.

51 Mae'r Athrofa'n cydnabod anghenion ei phoblogaeth myfyrwyr, oherwydd mae llawer o fyfyrwyr yn dychwelyd i addysg uwch ar ôl bod allan o'r byd astudio am gyfnod. Datblygwyd sesiynau sgiliau astudio ychwanegol a chymorth cynhwysfawr, ac mae llawlyfr ar gael i'r myfyrwyr sy'n rhoi rhagor o gefnogaeth ac arweiniad.

## Y feirniadaeth

52 I ffurfio ei feirniadaethau, gallai'r tîm adolygu archwilio ystod eang o dystiolaeth ddogfennol, sy'n cynnwys dogfen hunanwerthusiad a chyflwyniad y myfyrwyr, a thystiolaeth ategol a ddarparwyd. Darparwyd tystiolaeth ychwanegol mewn ymateb i gwestiynau a anfonwyd o flaen llaw ar ôl cyfarfod cyntaf y tîm. Cynhaliodd y tîm adolygu gyfarfodydd a thrafodaethau cadarnhaol gydag amrywiaeth eang o staff a myfyrwyr yr Athrofa, yn cynnwys ei Phennaeth a chynrychiolydd un o'i chyrff dyfarnu. Galluogodd y dystiolaeth i'r tîm adolygu archwilio'r ddarpariaeth addysgol a gynigir i'r myfyrwyr, o'r cam derbyn hyd y graddio.

53 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad y gellir teimlo hyder bod ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol.

## Sylwadau am gydymffurfiaeth â'r Safonau Iaith Gymraeg

54 Mae Athrofa Padarn Sant yn rhoi gwybodaeth eang am ei hymrwymiad i'r Gymraeg ar ei gwefan. Mae'r Athrofa'n cyhoeddi ei holl wybodaeth a'i holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd a hyrwyddo ac unrhyw ddeunyddiau ysgrifenedig eraill yn y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd. Mae prosesau ymsefydlu'r Athrofa'n rhoi gwybod i'r myfyrwyr am y cyfleoedd Cymraeg sydd ar gael, yn ogystal â'r aelodau hynny o staff sy'n siarad Cymraeg. Mae'r Athrofa'n hybu ethos iaith Gymraeg drwy warantu y bydd gwaith y myfyrwyr yn cael ei asesu a'i farcio yn yr iaith wreiddiol, ac mae'r Datganiad o Gyfraniad er Budd y Cyhoedd yn adlewyrchu ymrwymiad yr Athrofa. Cadarnhaodd y myfyrwyr bod rhai darlithwyr yn rhoi cyfarwyddiadau yn y ddwy iaith iddyn nhw mewn darlithoedd er mwyn eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg.

55 Mae'r Athrofa wedi datblygu Cynllun Iaith Gymraeg sy'n cynnwys camau gweithredu penodol i hybu'r iaith. Cynhyrchir ac adolygir adroddiad blynyddol ar gydymffurfiad â'r Safonau Iaith Gymraeg, ac mae cyfle i bob myfyriwr gyflwyno eu haseiniadau yn y Gymraeg. Mae rôl allweddol i'w chael yn yr Athrofa i gydlynu'r ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg, ac mae'r Athrofa'n annog ac yn cefnogi ei staff i ddatblygu eu sgiliau siarad Cymraeg ymhellach. Hefyd, mae gweithgareddau cyfoethogi i hybu'r iaith, er enghraifft, gwersi Cymraeg yn ystod cyfnodau astudio preswyl, ac eisteddfodau.

56 Mae'r prosesau o recriwtio a dethol staff yn dangos y dylai aelodau'r staff sydd newydd eu penodi allu siarad Cymraeg. Mae gwefan yr Athrofa'n nodi bod Cydlynydd Adnoddau a Chyfathrebiadau Cymraeg yn gyfrifol am gydlynu'r gwaith o gynhyrchu adnoddau yn y Gymraeg ar gyfer y weinidogaeth, marchnata a hyrwyddo, ac ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol. Mae ethos dwyieithog yr Athrofa'n hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg ymysg ei myfyrwyr. Mae'r Athrofa'n sicrhau cydymffurfiad â'r Safonau Iaith Gymraeg ac yn annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn rhan o'u profiad dysgu cyfan drwy gynnal gweithdai a gweithgareddau datblygu a chyfoethogi i'w staff.

57 Fel darparwr bychan, mae'r Athrofa wedi ceisio darparu adnoddau dysgu yn y Gymraeg lle bo'n bosibl; ond, mae'n cydnabod nad yw hyn yn bosibl bob amser o ystyried natur arbenigol rhaglenni'r Athrofa.

**QAA2837 - R14620 - Mai 24**

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2024
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

Ffôn: 01452 557000
Gwefan: www.qaa.ac.uk